**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 23 Gorffennaf 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | J.Jones, S.Miller, J.D.Morgan, R.Phillips, M.Protheroe, S.Renkes, D.Whitelock a/ac J.Hale |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, A.Thomas, S.Burgess, S.Blewett, M.Daley, C.Furlow-Harris, T.Davies, A.Manchipp, C.Davies a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees |

---

1. **STRATEGAETH ADFERIAD**

Cyflwynwyd strategaeth ddrafft i'r aelodau ar sefydlogi, y cyfnod rhwng ymateb ac adferiad, yn dilyn cychwyniad COVID-19. Roedd y strategaeth yn nodi fframwaith cyffredinol a fyddai'n cefnogi ymagwedd gyson a chydlynol wrth i'r cyngor symud tuag at adferiad. Nodwyd bod y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i bob Pwyllgor Craffu i dderbyn sylwadau cyn cyflwyno i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020 i'w chymeradwyo.

Rhoddodd swyddogion drosolwg byr o gynnwys y strategaeth, gan esbonio ei bod wedi'i rhannu'n dair adran a oedd yn cynnwys edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod cyfnod ymateb yr argyfwng, edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb a map ffordd o gamau gweithredu.

Wrth edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y cyfnod ymateb, tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gamau allweddol wedi'u cymryd gan gynnwys sefydlu gwasanaeth cyfathrebu saith niwrnod yr wythnos fel y gellid anfon canllawiau gan Lywodraeth y DU,

Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru pan oeddent ar gael. Ychwanegwyd bod y Cyngor wedi cau gwasanaethau i helpu i leihau lledaeniad y feirws ac wedi newid y ffordd yr oedd rhai gwasanaethau hanfodol yn gweithredu er mwyn gweithredu'n ddiogel, er enghraifft y gwasanaeth sbwriel. Soniodd swyddogion fod rhan gyntaf y strategaeth hefyd yn nodi'r newidiadau a wnaed mewn perthynas ag arweinyddiaeth a llywodraethu, gan gynnwys defnyddio'r ddarpariaeth Cam Gweithredu Brys a nodir yn y Cyfansoddiad, i sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn dal i gael eu gwneud yn ystod y cyfnod ymateb.

Esboniwyd ail ran y strategaeth i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys edrych ymlaen wrth i'r DU symud allan o'r cyfnod ymateb i gyfnod sefydlogi, sef y cam cyn symud i'r cyfnod adfer. Esboniwyd bod tri maes wedi'u nodi fel canolbwynt wrth i'r Cyngor symud ymlaen:

1. Y Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu

2. Sefyll gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor

3. Deall ac ymateb i'r effaith y mae'r firws wedi'u cael ar ddinasyddion, sefydliadau a busnesau ledled Castell-nedd Port Talbot

Ychwanegwyd bod yr ail ran hefyd yn nodi'r newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud o ran arweinyddiaeth a llywodraethu, yn ogystal â rhai o'r risgiau a'r materion a nodwyd y bydd angen eu rheoli wrth i'r cyngor fynd ati i roi'r strategaeth ar waith.

Cyflwynwyd trydedd ran y strategaeth fel map ffordd o gamau gweithredu a oedd wedi'i fframio ar sail system goleuadau traffig, a oedd yn nodi sut i symud o sefyllfa o gyfyngiadau symud llwyr, drwy'r system goleuadau traffig, i sefyllfa lle mae gwasanaethau'n gweithredu unwaith eto. Nodwyd bod nifer o'r gwasanaethau ar y map ffordd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant.

Gofynnodd yr Aelodau am adborth ar sut roedd gweithio gyda phobl ifanc o bell wedi mynd, a nodwyd bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol, er bod gan y gwasanaeth ieuenctid staff a gafodd eu hadleoli i'r gwasanaeth 'Safe and Well', felly roedd yn rhaid i weddill y staff reoli'r nifer y gellid ymdrin â hwy yn y gwasanaeth ieuenctid, gan flaenoriaethu'r bobl ifanc fwyaf diamddiffyn. Ychwanegwyd bod y staff wedi cwblhau galwadau ffôn wythnosol i sicrhau bod y bobl ifanc yn

teimlo'n ddiogel a'u bod yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a oedd ganddynt fel pryder. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod system hunangyfeirio hefyd wedi'i sefydlu i bobl ifanc ei defnyddio, fel y gallent gyfeirio eu hunain at y gwasanaeth pe baent yn teimlo dan bwysau. Nodwyd bod Swyddogion yn fodlon ar lefel yr ymgysylltu, fodd bynnag roedd manteision cwrdd wyneb yn wyneb â phobl ifanc ar goll.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd unrhyw fanylion am drefniadau teithio ar gyfer disgyblion wedi'u cadarnhau, yn enwedig a fyddai angen i ddisgyblion wisgo mygydau wyneb ar fysus ysgol a sut byddai'r mygydau wyneb yn cael eu prynu. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol ar gyfer ailagor ysgolion ym mis Medi, fodd bynnag nid oedd rhai meysydd wedi'u datblygu hyd yn hyn, gan gynnwys cludiant o'r cartref i'r ysgol felly nid oedd y canlyniad yn hysbys hyd yma. Ychwanegwyd mai'r disgwyliad oedd pe bai mygydau wyneb yn cael eu mandadu, byddai hynny ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd (Cyfnodau Allweddol 3 a 4) yn unig ac nid disgyblion ysgolion cynradd. Er nad oedd swyddogion yn ymwybodol o sut byddai'r mygydau wyneb yn cael eu prynu, nodwyd eu bod yn ymwybodol bod tua 3,000 o ddisgyblion oedran uwchradd yn cael eu cludo bob dydd, ddwywaith y dydd, felly byddai angen darparu 6,000 o fygydau wyneb bob dydd, ac amcangyfrifwyd y byddai hynny’n gost sylweddol o oddeutu £4miliwn. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai’r swyddogion yn adrodd yn ôl i'r aelodau unwaith y byddent yn ymwybodol o’r sefyllfa cludiant o'r cartref i’r ysgol yng Nghymru.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y golofn 'werdd' ar y Map Ffordd yn wag ar gyfer y blynyddoedd cynnar, y gwasanaeth ieuenctid a gwasanaethau addysg oedolion, a gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn oherwydd na chafwyd diweddariad diweddar gan Lywodraeth Cymru. Soniodd yr aelodau hefyd eu bod yn ymwybodol y bu cynnydd mewn problemau iechyd meddwl gyda phobl ifanc a gofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaethau wrth symud ymlaen i fynd i'r afael â'r materion hyn cyn i ysgolion agor ym mis Medi.
Darparodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd gwasanaeth a grybwyllwyd, gan gynnwys y gwasanaethau dysgu cymunedol a oedd yn gweithredu ar hyn o bryd drwy Microsoft Teams a thrwy ddarpariaethau technolegol eraill, ac oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol dwy fetr a oedd ar waith, nid oedd yn debygol y byddai darpariaeth wyneb yn wyneb yn cael ei ailgyflwyno yn y dyfodol agos.
O ran darparwyr gofal plant, nodwyd bod 79 allan o 129 o ddarparwyr

ar hyn o bryd yn gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot (tua 61%) ond tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau bod pob un o'r 129 o ddarparwyr yn dod yn ôl i wasanaethu'r cymunedau lle maent yn gweithredu.
Mewn perthynas â chyllid, dywedwyd bod gan y cyngor ddwy ffrwd ariannu sylweddol:

1. Cymorth haf i ddysgwyr diamddiffyn, sy'n cynnwys gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion ac asiantaethau eraill megis yr heddlu ac iechyd, i nodi'r dysgwyr mwyaf diamddiffyn. Cadarnhawyd bod £75,000 wedi'i neilltuo i ddarparu gofal seibiant a chymorth tebyg arall dros yr haf.

2. Gweithgareddau cyfoethogi'r haf a fydd yn cymryd lle SHEP, gan y byddai'n anodd cynnal rhaglen mor helaeth o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol. Yn hytrach, darperir gweithgareddau cyfoethogi'r haf o chwech o gyfleusterau'r cyngor dros bythefnos ac fe'i targedir at ysgolion sydd â phroffil Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) o dros 17%. Cadarnhawyd bod tua £46,000 wedi'i ddyrannu i ddarparu'r gweithgareddau.

Nododd yr Aelodau y darperir cefnogaeth iechyd a lles emosiynol o bell i blant ac y byddai'n parhau dros yr haf i'r rheini y mae angen cymorth o'r fath arnynt. Ychwanegwyd bod y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn weithredol o hyd, ond ei fod hefyd yn cael ei ddarparu o bell.

2. **<u>ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES - CYNLLUNIO CYFLWYNO GWASANAETH AC ADFER CYFREDOL (CYFLWYNIAD)</u>**

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad ar y ddarpariaeth gwasanaethau a'r cynllunio adferiad presennol gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Castell-nedd Port Talbot, drwy gydol y cyfyngiadau symud, wedi darparu taliad wythnosol o £19.50 i bob plentyn cofrestredig a oedd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim (PYDd) i sicrhau eu bod yn cyrraedd mwy o blant yn y gymuned. Nodwyd bod bagiau casglu a mynd wedi'u darparu yn y gorffennol, fodd bynnag 20% yn unig o'r disgyblion PYDd d defnyddiodd y rhain a bellach, drwy'r cynllun talu, roedd 95% o ddisgyblion PYDd yn derbyn prydau bwyd. Cadarnhaodd swyddogion fod cyfanswm o £1.1 miliwn wedi'i

dalu i deuluoedd cymwys hyd yma ac y byddai hyn yn parhau drwy'r haf ac o bosib i bythefnos cyntaf y tymor newydd.

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad a ddosbarthwyd, mae'r Swyddogion yn disgwyl y byddai bron pob aelod o staff yn gallu dychwelyd i'r gwaith ym mis Medi, er bod 12 aelod o staff addysgu'n gwarchod ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai asesiadau risg yn cael eu cynnal gan bob ysgol i egluro'r trefniadau ar gyfer y staff addysgu a oedd yn gwarchod, fel eu bod yn gallu dychwelyd i'r gwaith ym mis Medi. Ychwanegwyd y bydd ysgolion yn cynnal asesiadau risg ar gyfer pob gweithgaredd ac y byddai hynny rhywbryd ar ddiwedd mis Awst (gyda dyddiad cau o 27 Awst 2020).

O ran cynhwysiant a lles, dywedwyd y rhoddwyd cymorth i ddisgyblion drwy gydol y cyfyngiadau symud; parhawyd â hyn gyda chymorth gwasanaeth TG y cyngor, a roddodd ddarpariaethau ar waith yn gyflym iawn ac a roddodd yr offer hanfodol i'r timau i'w galluogi i barhau i wasanaethu'r plant diamddiffyn yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y gwasanaeth cynhwysol wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu'r gofrestr dysgwyr diamddiffyn a bod y staff wedi cydweithio fel rhan o grŵp amlasiantaeth, i drafod darpariaeth, mynd i'r afael â materion a sicrhau bod y gofrestr yn cael ei diweddaru'n wythnosol. Ychwanegwyd bod y gwaith hwn yn bwysig iawn oherwydd y pryderon a oedd gan y staff ynghylch plant diamddiffyn gartref; roedd y gofrestr yn cynnwys system CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) i fesur risgiau'r plant a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn yn wythnosol, fel bod y staff yn gallu rhoi digon o gefnogaeth ar waith lle'r oedd ei angen.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfleusterau hamdden a oedd yn cynnwys llyfrgelloedd, Parc Margam a Hamdden Celtic. Nodwyd bod y staff wedi cymryd ymagwedd ofalus iawn wrth ailagor llyfrgelloedd a Pharc Margam a'u bod bob amser wedi dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd swyddogion sylw at y rhaglen ailagor ar gyfer llyfrgelloedd a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad, yn ogystal â sôn am drefniadau ailagor Parc Margam, yr ymdriniwyd â hwy fesul cam.

O ran Hamdden Celtic, soniwyd bod yr aelodau, ar 17 Mawrth 2020, wedi cytuno i gynnal proses gaffael a oedd yn cynnwys cwblhau gwahoddiad i dendro am ddarparu gwasanaethau hamdden yng Nghastell-nedd Port Talbot yn unol â manyleb bresennol y gwasanaeth ac i gychwyn ar broses dendro fel y nodir yn yr

adroddiad; nodwyd bod y broses yn parhau ac y bu cyfres o gyfarfodydd gyda'r ymgynghorydd, a oedd wedi bod yn heriol i'w gwneud o bell. Ychwanegwyd bod 95% o'r dogfennau'n barod a chynhigiwyd eu bod yn mynd i'r farchnad ym mis Medi 2020, er mwyn caffael i sicrhau darparwr newydd, gyda'r bwriad o fynd yn ôl at Aelodau ym mis Ionawr 2021 i gael penderfyniad terfynol.

Oherwydd yr argyfwng, dywedwyd ei bod hi’n anodd rhoi cynlluniau ar waith i ailagor cyfleusterau oherwydd gallai amgylchiadau newid, ond dywedodd swyddogion eu bod yn deall y byddai Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi'n fuan y gallai cyfleusterau hamdden ailagor o 10 Awst 2020. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y swyddogion wedi gofyn i Hamdden Celtic am gynllun agor, a fyddai'n cael ei rannu'n gamau ac yn cynnwys yr asesiadau risg angenrheidiol; ychwanegwyd, pe bai'r cyhoeddiad yn digwydd, y byddai'r prif gyfleusterau trefol yn agor yn gyntaf ac o fewn wythnos, y byddai disgwyl i'r cymoedd a chyfleusterau cymunedol ailagor.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod glanhau ac arlwyo yn wasanaethau allweddol wrth sicrhau bod gan bobl hyder yn y broses ailagor ysgolion yn ddiogel ac mewn modd hylan. Soniwyd y byddai'r prosesau'n parhau i dymor yr hydref, yn enwedig o ran cyfarpar amddiffyn personol.

Gofynnodd yr Aelodau sut  roedd staff wedi cadarnhau pa ddisgyblion yr oedd angen offer ychwanegol arnynt yn ystod y cyfyngiadau symud, yn enwedig y Chromebooks a'r gliniaduron. Esboniwyd bod gan ysgolion gryn ddealltwriaeth o anghenion disgyblion, felly nhw fu’n gwneud y penderfyniadau ynghylch ble roedd angen darparu'r cyfarpar. Soniwyd bod y buddsoddiad ychwanegol, a oedd ar gael drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru, yn golygu bod cannoedd o liniaduron a Chromebooks wedi cael eu dosbarthu i'r plant. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod 1,500 o liniaduron, iPads a Chromebooks yn cael eu storio ar hyn o bryd, a fyddai'n cael eu darparu i ysgolion ac roedd cynllun ar waith i archebu gwerth £1.3miliwn o offer TG o'r un ffynhonnell grant. Nodwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag ysgolion i benderfynu pa offer yr oedd ei angen, gydag ysgolion uwchradd yn gobeithio darparu Chromebook i bob plentyn i'w alluogi i gynllunio ar gyfer dysgu parhaus, ond soniodd swyddogion y byddai angen cadarnhau cost hyn cyn y gellid ei gadarnhau. O ran ysgolion cynradd, roedd trafodaethau’n cael eu cynnal ynghylch pa lefel o ddarpariaethau y byddai eu hangen ar bob cyfnod allweddol a chydnabuwyd

nad oedd angen i bob plentyn gael darn o gyfarpar yr un ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd ysgolion mewn sefyllfa i ymdopi ag unrhyw newidiadau cyfeiriad sydyn, newydd ac a oedd disgwyl iddynt ddarparu ar gyfer dysgu mwy cyfunol, ac a ellid gwneud hynny'n gyflym. Esboniwyd mai'r disgwyliad presennol oedd y byddai pob ysgol wedi agor i bob disgybl, o'r dosbarth meithrin hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 5 erbyn 14 Medi 2020. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod ysgolion wedi agor yn ddiweddar yn ystod yr wythnosau diwethaf, a bod presenoldeb tua 55-60% o boblogaeth y disgyblion; nodwyd mai'r agwedd ar hyn a oedd yn peri gofid oedd nad oedd disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn mynychu ar yr un gyfradd â'r disgyblion nad oedd ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim ac o fis Medi ymlaen, byddai angen cynnal asesiadau o anghenion y plant hynny. O ran dysgu cyfunol, dywedodd swyddogion mai'r hyn sydd bwysicaf yw bod technoleg yn cael ei defnyddio fel llwyfan i ganiatáu addysgu effeithiol, a dylai bob amser ymwneud ag egwyddorion craidd dysgu da sy'n cynnwys ymgysylltiad cryf rhwng disgyblion a'r athro, adborth da o ran sicrhau cynnydd dysgu a sicrhau bod y camau nesaf yn cael eu cynllunio, yn seiliedig ar ddealltwriaeth pob disgybl unigol. Ychwanegwyd y dylai'r egwyddorion hyn fod ar waith ni waeth beth yw'r dull o ddarparu'r addysgu.

Gofynnwyd a oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer ailagor llyfrgelloedd y cymoedd a'r cymunedau, yn enwedig ar gyfer mynediad at eu cyfleusterau rhyngrwyd. Eglurodd swyddogion nad oedd dyddiad wedi'i bennu ar hyn o bryd, ac fel y soniwyd eisoes, roedd ymagwedd ofalus yn cael ei defnyddio wrth ailagor gwasanaethau ac roedd cyfyngiadau o ran staffio oherwydd roedd rhai aelodau o staff wedi derbyn llythyrau gwarchod. Cytunwyd y byddai Andrew Thomas, Pennaeth Trawsnewid, yn cael rhagor o wybodaeth am ailagor llyfrgelloedd y cymoedd ac yn cadarnhau hyn gyda'r Cynghorydd Del Morgan.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau ar waith i ailagor theatrau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ailagor theatrau, ond roedd cynlluniau i ailagor Neuadd Gwyn fel cyfleuster sinema ar 17 Awst 2020. Dywedwyd na fyddai'n ariannol ddichonadwy i ailagor theatrau gyda'r mesurau cadw pellter cymdeithasol cyfredol ar waith. Yn dilyn hyn, gofynnwyd a oedd unrhyw opsiynau o ran agor cyfleusterau, megis Canolfan Celfyddydau Pontardawe, y gellid eu defnyddio fel

canolfannau cymunedol. Eglurodd swyddogion fod gallu i wneud hyn ac y gellid ei gynllunio dros amser gydag asesiadau risg sylweddol ar waith; fodd bynnag, roedd holl staff Canolfan Celfyddydau Pontardawe wedi'u hadleoli i'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, sy'n wasanaeth hollbwysig i'w gefnogi. Soniwyd bod staff newydd yn cael eu recriwtio ar gyfer y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd, ac o ganlyniad, gallai staff a oedd wedi'u hadleoli ddechrau dychwelyd i'w swyddi gwreiddiol.

Gofynnwyd i swyddogion pwy sy'n hwyluso Aqua Splash Aberafan ac a oedd bwriad i'w ailagor eleni. Nodwyd bod Hamdden Celtic yn hwyluso'r parc sblasio ac nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i'w agor ar hyn o bryd oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i'w gomisiynu (tua thair wythnos), a'r ffaith bod y parc sblasio'n cau ar gyfer yr hydref/gaeaf yng nghanol mis Medi. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod wedi gofyn am gynlluniau ailagor Hamdden Celtic ar gyfer pob cyfleuster ac y byddai barn yn cael ei chymryd pan gyflwynir y cynlluniau hyn i swyddogion.

Trafodwyd y nifer mawr o bobl a fanteisiodd ar ddarpariaeth yr haf. Nodwyd bod y ddarpariaeth gyntaf wedi'i thargedu at oddeutu 150 o blant, yn seiliedig ar y gofrestr dysgwyr diamddiffyn, a oedd fwyaf mewn perygl yn ôl yr asesiad ar y cyd. Esboniodd swyddogion fod y ddarpariaeth wedi'i rhannu'n dair adran. Yr adran gyntaf oedd yr un fwyaf dwys a fyddai'n cynnwys galwadau ffôn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a thynnu plant allan o'r cartref bob dydd a'r drydedd yn cael ein thargedu at ar y rheini byddai angen eu tynnu allan o'r cartref unwaith yr wythnos efallai i gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy penodol. Nodwyd bod rhaglen gyfoethogi'r haf yn targedu disgyblion blwyddyn 5 a 6 y sector cynradd, gyda'r potensial i gynnwys oddeutu 900 o blant. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y broses gofrestru ar gyfer y rhaglen yn parhau, ond nid oedd y nifer oedd yn manteisio ar y rhaglen mor uchel ag yr oedd swyddogion wedi gobeithio, gydag oddeutu 50% yn manteisio arni ar hyn o bryd. Cadarnhawyd y byddai swyddogion yn cysylltu ag ysgolion i gysylltu â theuluoedd plant i geisio cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen, gan y byddai'r broses gofrestru'n dod i ben ar ddiwedd yr wythnos; fodd bynnag, os na fydd y niferoedd wedi newid yn sylweddol, gellid ymestyn y dyddiad cau er mwyn gallu canolbwyntio ar ystod ehangach o ddisgyblion.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch y sefyllfa bresennol Cymunedau am Waith (CFW) a'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) a'u ffocws yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion eu

bod yn pryderu'n fawr am effaith yr argyfwng ar ddiweithdra a diffyg diddordeb ymysg pobl ifanc.  Nodwyd bod 43 o bobl ifanc nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) y llynedd, ac roedd y swyddogion yn credu y gallai'r ffigur hwn gynyddu 300%. Soniwyd bod swyddogion yn pryderu am nifer o faterion gan gynnwys y ffaith nad oedd y bobl ifanc wedi bod yn yr ysgol ers diwedd mis Mawrth 2020, na fyddent yn sefyll eu harholiadau ac y byddent yn derbyn eu graddau'n seiliedig ar asesiadau athrawon. Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai chwyddiant graddau gael effaith ar rai disgyblion sy'n symud ymlaen i addysg bellach, wrth i CBAC a Chymwysterau Cymru roi algorithm ar waith sy'n edrych ar berfformiad pob ysgol yn y gorffennol dros y tair blynedd diwethaf, ac os ydynt yn credu bod chwyddiant graddau wedi digwydd, byddant yn dadchwyddo'r graddau. Soniodd swyddogion hefyd na fyddai'r broses o ailsefyll arholiadau mor helaeth ag y bu yn y gorffennol, gan y byddai'n berthnasol i'r pynciau craidd yn unig ac nid y meysydd pwnc ehangach. Dywedwyd mai pryder arall oedd y bobl ifanc a fyddai'n chwilio am waith a/neu brentisiaethau yn y farchnad lafur, gan ei fod ar hyn o bryd yn farchnad a oedd yn wynebu cryn heriau ac nid oedd pobl ifanc yn debygol o gael yr un ystod o ddewis ag y byddent wedi'i gael yn y gorffennol. Fodd bynnag, hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i sefydlu fforwm ieuenctid ar gyfer yr awdurdod lleol, a fydd yn dod â'r gwasanaeth ieuenctid, colegau ac adrannau o fewn y cyngor ynghyd i geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu a chyflogaeth i bobl ifanc. Ychwanegwyd eu bod hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc gan gynnwys yn yr Heddlu a'r sector Iechyd.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Diolchodd y pwyllgor i'r gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes am ei holl waith caled yn ystod argyfwng COVID-19.

**CADEIRYDD**